

201- Rhif (Cy.)

201- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y
Gwynt), Bangor, Gwynedd i
(Gylchfan y Gledryd), y Waun,
Wrecsam i Ffin Cymru/Lloegr)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2018

A5 Trunk Road (Junction 11 (Llys
y Gwynt Interchange), Bangor,
Gwynedd to (Gledrid Roundabout),
Chirk, Wrexham to the
Wales/England Border)
(Temporary Traffic Prohibitions
and Restrictions) Order 2018

Gwnaed 24 Awst 2018

Made 24 August 2018

Yn dod i rym 1 Medi 2018

Coming into force 1 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i (Gylchfan y Gledryd), y Waun, Wrecsam i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Medi 2018.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Junction 11, (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd to (Gledrid Roundabout), Chirk, Wrexham to the Wales/England Border) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 1 September 2018.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r lluwyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lloedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lloedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 1 Medi 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi yn Siroedd Gwynedd, Conwy, Dinbych, y Fflint a Wrecsam sy’n ymestyn o Gyffordd 11 Cefnffordd yr A55 wrth Gyfnewidfa Llys y Gwynt, Gwynedd hyd at Gylchfan y Gledryd, y Waun, ar ffin Cymru/Lloegr, Wrecsam;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lloedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead Trunk Road within the Counties of Gwynedd, Conwy, Denbighshire, Flintshire and Wrexham that extends from Junction 11 of the A55 trunk road at Llys y Gwynt Interchange, Gwynedd to Gledrid Roundabout, Chirk on the Wales/England border, Wrexham;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 08:00 on 1 September 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and Restriction

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddud unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

Cymhwys

9. (1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Awst 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road.

6. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road.

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction referred to in article 6 is in operation.

Suspension

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road suspended during such times as the restrictions specified in articles 4, 5 and 6 are in operation.

Application

9. (1) The restrictions and prohibitions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 August 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(CYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y
GWYNT), BANGOR, GWYNEDD I
(GYLCHFAN Y GLEDRYD), Y WAUN,
WRECSAM I FFIN CYMRU/LLOEGR)
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU
TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5 neu gerllaw iddi, o'i chyffordd â chefnffordd yr A55 wrth Gyfnewidfa Llys y Gwynt, Gwynedd hyd at Ffin Cymru/Lloegr, Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o Gyffordd 11 yr A55 wrth Gyfnewidfa Llys y Gwynt, Gwynedd, hyd at Gylchfan y Gledryd, y Waun ar ffin Cymru/Lloegr, Wrecsam.

ii. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r A5 a ddisgrifir uchod. Bydd y terfynau cyflymder 40 mya neu 30 mya yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod cyfnod y gwaith. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol ac ni chaniateir goddiweddys ar yr adegau hyn.

Bydd unrhyw ffordd sydd ar gau yn llwyr yn cael ei rheoli gan oleuadau traffig. Dim ond am gyfnodau byr y bydd y ffordd ar gau a bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau hynny. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 08:00 o'r gloch ar 1 Medi 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 07:59 o'r gloch ar 29 Chwefror 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

**THE A5 TRUNK ROAD (JUNCTION 11, (LLYS
Y GWYNT INTERCHANGE), BANGOR,
GWYNEDD TO (GELDRID ROUNDABOUT),
CHIRK, WREXHAM TO THE
WALES/ENGLAND BORDER) (TEMPORARY
TRAFFIC PROHIBITIONS AND
RESTRICTIONS) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road, from its junction with the A55 trunk road at Llys y Gwynt Interchange, Gwynedd to the Wales/England Border, Wrexham.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the length of the A5 trunk road that extends from Junction 11 of the A55 trunk road at Llys y Gwynt Interchange, Gwynedd to Gledrid Roundabout, Chirk on the Wales/England border, Wrexham.

ii. impose either a 40 mph, 30mph or 10 mph speed limit on the length of the A5 described above. The 40 mph or 30 mph speed limit will operate intermittently during the work periods. The 10 mph speed limit will only operate during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

Any full road closures will be controlled under traffic lights and indicated by advance traffic signs, but will only be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 08:00 hours on 1 September 2018 and operate intermittently until 07:59 hours on 29 February 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government